# Cynllun Corfforaethol

## 2024-2027

NORTH WALES HOUSING
TAI GOGLEDD CYMRU




## Gwneud Gwahaniaeth, Trawsnewid Bywydau

# Croeso

Yn Tai Gogledd Cymru (TGC) rydym wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n preswylwyr.

Mae gennym bedair Blaenoriaeth strategol ar gyfer 2024-2027, a fydd yn ein helpu i gyflawni'r diben hwnnw:

Rydym yn adeiladu ar seiliau cadarn a hanes balch. Yn 2024, rydym yn nodi ein 50fed blwyddyn ym maes tai ac rydym yn gyffrous i adeiladu ar yr etifeddiaeth honno yn y dyfodol.

Mae ein Cynllun Corfforaethol tair blynedd yn nodi sut y byddwn yn gweithio i gyflawni ein gweledigaeth. Ac mae ein gweledigaeth yn glir: Gwneud gwahaniaeth trwy ddarparu cartrefi mewn

cymunedau y mae pobl wrth eu bodd yn byw ynddynt. Y weledigaeth honno sy'n gyrru popeth a wnawn yma yn Tai Gogledd Cymru.

Rydym yn deall gwerth a phwysigrwydd cartref da ac rydym yn gwybod bod a wnelo tai â mwy na brics a morter. Mae ein huchelgeisiau a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni wedi'u nodi yn y Cynllun hwn a byddant o fudd i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Byddant yn arwain ein camau

gweithredu i wella gwasanaethau a chartrefi yn ogystal ag arwain ein gweithredu gyda phobl a sut rydym yn rhedeg ein busnes.

Rydym yn credu'n gryf bod ein diwylliant yn un o'r sbardunau allweddol i'n llwyddiannau ac yn gweld hyn fel rhan hanfodol o'n hetifeddiaeth i'r dyfodol. Rydym yn falch bod ein cydweithwyr yn teimlo bod ein diwylliant yn y gweithle yn un cyfeillgar, cynhwysol, cefnogol a chadarnhaol.

Drwy weithio gyda'n preswylwyr, cydweithwyr a chydweithio â phartneriaid allweddol eraill, rydym wedi myfyrio ar yr hyn rydym eisoes wedi'i gyflawni a'r hyn rydym am ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf, ac i'r dyfodol.

Mae gennym bedair Blaenoriaeth strategol ar gyfer 2024-2027, a fydd yn ein helpu i gyflawni'r diben hwnnw:

- **Rydym yn ymroddedig am wella profiad preswylwyr wrth fyw yn ein cartrefi a'n cymunedau**
- **Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu cartrefi diogel, clyd a chynnes mewn amgylchedd glân a diogel**
- **Rydym yno i'n pobl a chreu lle gwych I weithio a bod yn chi'ch hun**
- **Rydym yn rheoli ein busnes yn foesegol ac yn tyfu ein busnes mewn ffordd gynaliadwy.**

**Mae gennym lawer i'w wneud i gyflawni ein gweledigaeth erbyn 2027 a thu hwnt.**
Rydym yn gwybod y byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth trwy ymrwymiad a sgiliau ein tîm yma yn Tai Gogledd Cymru.



**Helena Kirk**
Prif Weithredwr



**Catherine Dixon**
Cadeirydd

# Ein Cenhadaeth

Trawsnewid bywydau gyda chartrefi gwych, gwasanaethau o safon a chefnogaeth.






# Ein Gweledigaeth

Gwneud gwahaniaeth gan ddarparu cartrefi mewn cymunedau y mae pobl wrth eu bodd yn byw ynddynt.

# Ein Gwerthoedd

UN TÎM

**Rydym yn Un Tîm**

Credwn y gallwn gyflawni mwy gyda'n gilydd. Rydym yn unedig yn yr hyn a wnawn ac yn falch

o'r hyn rydym yn ei gyflawni gyda'n gilydd.

Rydym yn cydweithio â chydweithwyr, partneriaid a'r gymuned, gan adnabod nodau a rennir a datrys problemau gyda'n gilydd i gyflawni'r canlyniadau gorau y gallwn.

Rydym yn cefnogi ein gilydd ac yn gweithio'n galed i gyfathrebu a meithrin perthnasoedd cadarnhaol, gan gael hwyl lle gallwn fel tîm.

YMDDIRIEDAETH

**Rydym yn adeiladu Ymddiriedaeth**

Rydym yn onest, cyson a dibynadwy.

Rydym yn grymuso gweithwyr proffesiynol i gyflawni'r hyn a ddywedwn a wnawn a gwneud y peth iawn.

Rydym yn monitro ein perfformiad ac yn cywiro ein camgymeriadau.

Rydym yn creu amgylchedd lle mae ein pobl yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu bod yn driw i'w hunain.

Ymddiriedaeth yw sylfaen ein rhyngweithio.

AGORED

**Rydym yn Agored**

Rydym yn agored i bawb ac yn cau allan rhagfarn.

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn gweithio'n galed i greu amgylchedd lle gall pobl deimlo'n gyfforddus fel y gallant roi o'u gorau.

Rydym yn cyfathrebu'n dda fel ein bod yn hawdd i'n deall gan annog adborth, cyfranogiad a

chymryd rhan.

Rydym yn agored i newid, syniadau newydd, arfer gorau ac arloesi i'n helpu i symud

ymlaen a mynd i'r afael â'n heriau.

> "Mae fy mhrofiad wedi bod yn anhygoel. Mae fy mhartner a minnau wedi bod yn chwilio am gartref ers ychydig llai na blwyddyn a daeth Tai Gogledd Cymru i'r adwy. Rydym mor ddiolchgar am y cymorth a'r profiad o gael y cartref perffaith hwn."
>
> Chanise Pritchard,
> yn byw yn Wrecsam




DYSGU

**Rydym yn Dysgu**

Rydym yn chwilfrydig ac yn canolbwyntio

ar sut y gallwn wneud yn well.

Rydym yn gwrando er mwyn dysgu, deall, dod i wybod mwy ac ailwerthuso.

Rydym yn croesawu adborth ac yn gweld ein camgymeriadau fel cyfleoedd i wella.

Rydym yn annog pobl fel y gallant wireddu eu potensial, teimlo'n fodlon a chael effaith gadarnhaol.

Rydym yn cymryd amser i adolygu, myfyrio a dathlu ein llwyddiannau.

TEG

**Rydym yn Deg**

Rydym yn sicrhau bod ein polisïau, ein harferion a'n ffordd o weithio yn gynhwysol ac yn hygyrch ac yn ein helpu i wneud y peth iawn.

Rydym yn gytbwys yn ein penderfyniadau, gan arwain trwy esiampl rydym yn trin ein

pobl gyda pharch.

Rydym yn cymryd amser i ddeall a hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin derbyniad.

Rydym yn ceisio tegwch i eraill, gan hyrwyddo a chefnogi'r rhai sydd ar y cyrion ac sy'n agored i niwed yn ein cymunedau.

# Ein Blaenoriaethau

Mae gennym bedair blaenoriaeth ar gyfer tair blynedd ein Cynllun Corfforaethol, a fydd yn arwain ein camau gweithredu i wella gwasanaethau ein preswylwyr a'u cartrefi.



> "Rydym yn ddiolchgar am y cyllid a dderbyniwyd oddi wrth Cronfa Gymunedol TGC a helpodd ni i newid ein hen fflagiau cornel. Mae'r baneri newydd hyn yn cynrychioli conglfaen TGC a CPD Seintiau Bangor yn cynorthwyo ei gilydd i ofalu am y pobl ifanc yn ein cymuned."
>
> Daf Roberts,
> Cydlynydd

1. **Rydym yn ymroddedig am wella profiad preswylwyr sy'n byw yn ein cartrefi a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu**

2. **Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu cartrefi diogel, clyd a chynnes mewn amgylchedd glân a diogel**

3. **Rydym yno i'n pobl a chreu lle gwych i weithio a bod yn chi'ch hun**

4. **Rydym yn rheoli ein busnes yn foesegol ac yn tyfu ein busnes mewn ffordd gynaliadwy.**

# Ein Huchelgais

## Blaenoriaeth 1



## Rydym yn ymroddedig am wella profiad preswylwyr sy'n byw yn ein cartrefi a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu

Mae hynny'n golygu:

- Byddwn **yn hawdd** i breswylwyr ddelio gyda ni
- Byddwn **yn weladwy iawn** i'n preswylwyr
- Bydd ein preswylwyr **yn ymddiried** ynom
- Byddwn yn **ymgysylltu** â'n preswylwyr

A hefyd:

- Byddwn yn rhoi **mwy o foddhad** preswylwyr gyda'n gwasanaethau
- Byddwn yn darparu **gwerth am arian** i breswylwyr
- Bydd preswylwyr yn **falch o fyw yn eu cymdogaeth**

# Ein Huchelgais

## Blaenoriaeth 2



## Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu cartrefi clyd a chynnes diogel mewn amgylchedd glân a diogel

Mae hynny'n golygu y byddwn yn:

- Darparu **gwasanaeth trwsio rhagweithiol**
- **Ymgysylltu** â'n preswylwyr ynglŷn â'r buddsoddiadau a dewisiadau
- **Ychwanegu tai fforddiadwy** ym mhob un o'r 6 ardal awdurdod lleol

A bydd gennym:

- Preswylwyr sy'n **falch o fyw yn eu cartref**
- Cartrefi sy'n cadw ein preswylwyr **yn ddiogel ac yn gynnes**
- **Cyfraniad sylweddol** i'r targed o 20,000 o gartrefi ychwanegol

# Ein Huchelgais

## Blaenoriaeth 3




## Rydym yno i'n pobl a chreu lle gwych i weithio a bod yn chi'ch hun

Mae hynny'n golygu y byddwn:

- Yn gyflogwr gwych **o ddewis**
- Yn **gynhwysol**

A bydd gennym:

- **Staff** sy'n **falch** o weithio gyda ni
- Cynllun y mae ein **pobl yn credu ynddo**
- Diwylliant o **ymddiriedaeth**
- Meddylfryd "**celfyddyd y posibl**" a'i wneud i ddigwydd

# Ein Huchelgais

## Blaenoriaeth 4




## Rydym yn rheoli ein busnes yn foesegol ac yn tyfu ein busnes mewn ffordd gynaliadwy

Mae hynny'n golygu y byddwn:

- Yn **wydn** ac yn **gryf** yn ariannol
- Yn cael ein gweld fel **busnes uchelgeisiol**
- **Yn fwy**

A bydd gennym:

- **Partneriaid** sy'n **falch** o weithio gyda ni
- Y **safon reoleiddio** uchaf
- **Sylfeini cadarn** ar gyfer llywodraethu, rheoli ariannol, rheoli risg, rheoli perfformiad, fel ein bod **yn cyflawni yn eithriadol o dda**

# Mesur ein llwyddiant



**Rydym yn ymroddedig am wella profiad preswylwyr wrth fyw yn ein cartrefi a'n cymunedau.**

- Canlyniadau ein harolwg STAR blynyddol.
- Cadw a gwella dyfarniad QED.
- Cyflawni'r wobr Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer.

**Rydym yno i'n pobl a chreu lle gwych i weithio a chi'ch hun.**

- Cyflawnwyd gwobr Platinwm Buddsoddwyr mewn Pobl.
- Cadw a gwella dyfarniad QED.
- Cwmnïau Gorau 3 seren wedi'u cyflawni.



**Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu cartrefi diogel, clyd a chynnes mewn amgylchedd glân a diogel**

- Cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru.
- Canlyniadau arolwg STAR blynyddol.
- Sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni SAP ar gyfer ein cartrefi.
- Ein cyfraniad at darged cartrefi fforddiadwy newydd Llywodraeth Cymru.

**Rydym yn rheoli ein busnes yn foesegol ac yn tyfu ein busnes mewn ffordd gynaliadwy.**

- Dyfarniad Rheoliadol yn wyrdd.
- Hylifedd ariannol parhaus – ein gallu i fodloni ein rhwymedigaethau.
- Mesurau gwerth am arian a pherfformiad ariannol yn y Datganiadau Ariannol.
- Sut rydym yn cymharu â sector cymdeithasau tai Cymru o'r arolwg Cydlyniant Busnes a'r Cyfrifon Cyffredinol.

# Gwydnwch Trefniadol

Mae TGC yn rhoi cwsmeriaid wrth galon popeth a wnawn.

Mewn perthynas â'n hagwedd at risg, mae hyn yn golygu y byddwn yn cymryd risgiau lle bo angen i ddiogelu a datblygu TGC, ond nid ar draul ein cwsmeriaid, rhanddeiliaid, cynaliadwyedd, safonau neu'n gwerthoedd.

Ein hagwedd at risg yw ymgymryd â'r gweithgareddau a'r prosiectau a fydd yn ein cefnogi i dyfu mewn meysydd lle'r ydym yn bresennol ac yn ymroddedig. Byddwn yn ymateb yn gyflym i fentrau a chyfleoedd newydd sy'n ategu ein meysydd gwasanaeth craidd heb beryglu ein gwasanaethau craidd na'n stoc tai cymdeithasol, gan gefnogi twf cynaliadwy y gellir ei reoli.



**"Dw i wedi gweithio yn TGC am dros flwyddyn. Rwyf wedi ffeindio bod y sefydliad yn garedig, yn hyblyg ac yn gofalu amdanaf fel unigolyn (nid rhif yn unig ydw i yn bendant!). Mae yna ddiwylliant o roi pobl yn gyntaf a dealltwriaeth bod gan bawb ohonom fywydau y tu allan i'r gweithle. Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi hefyd, ... fel cacen ar fy mhen-blwydd a blodau pan gafodd fy mabi ei eni."**

Stuart Hughes,
Swyddog Cefnogi Tai

NORTH WALES HOUSING
TAI GOGLEDD CYMRU

VERY GOOD TO WORK FOR 2024
cert.b.co.uk

disability confident EMPLOYER

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur


01492 572727

customerservices@nwha.org.uk

North-Wales-Housing

@northwalesha